



Promoting improvements  
in policing to make  
everyone safer

## Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Gwent – Trawsgrifiad

Mae Heddlu Gwent yn darparu lefel dda o wasanaeth i bobl Gwent ac rwyf yn falch ei fod wedi cynnal ei berfformiad ers fy asesiad blaenorol. Mae'r llun ymgysylltu'n effeithiol â phobl Gwent er mwyn nodi'r problemau sy'n peri pryder iddynt.

Cynhelir y camau cychwynnol o ymchwiliadau a wneir gan Heddlu Gwent, gan gynnwys y cyfnod cynnar o gasglu tystiolaeth, yn dda. Dyrennir troseddau i ymchwilyr â'r sgiliau a phrofiad priodol, ond mae angen i'r llun wella'r ffordd mae ymchwiliadau'n cael eu goruchwylio wedyn. Hefyd, mae gan Heddlu Gwent gynllun integredig effeithiol ar gyfer rheoli troseddwy.

Mae'r llun amddiffyn pobl hyglwyf yn dda, yn arbennig dioddefwyr cam-drin domestig. Mae ei ymateb i blant coll yn dda, ac mae ganddo brosesau effeithiol i nodi a mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae angen i'r llun wella cysondeb y broses asesu risg a gynhelir gan drafodwyr galwadau.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth gyfyng o'r bygythiad a gyflwynir gan droseddu difrifol a threfnedig; fodd bynnag rwyf wedi cael sicrwydd ei fod yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth dda iawn o'r galwadau cyfredol a rhai'r dyfodol am ei wasanaethau, gan gynnwys galwadau cudd bondigrybwyll megis troseddu ar y rhynggrwyd. Hefyd, mae gan y llun ddealltwriaeth dda o sgiliau a gwybodaeth ei weithlu.

Mae gan Heddlu Gwent gynlluniau ariannol cryf a adeiladir ar ragdybiaethau cadarn ac mae'n deall y bylchau posibl yn ei gyllid yn y dyfodol. Rwyf wedi cael sicrwydd ynghylch dealltwriaeth fanwl y llun o'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol, sydd wedi llywio ei gynlluniau buddsoddi cynhwysfawr. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys buddsoddiad pellach mewn technoleg ddigidol.

Mae'r llun defnyddio amrediad o ymagweddau arloesol i geisio adborth gan bobl Gwent. Mae'n dda o ran defnyddio'r adborth hwn i wella ei arferion, ac mae'n rhoi pwyslais arbennig ar adeiladu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

Rwyf yn fodlon bod y llun cynnal ymddygiad moesegol a chyfreithlon yn ei weithlu'n gyson. Fodd bynnag, mae angen i'r llun drafod yr ôl-groniadau o ran fetio ei weithlu i'r lefel briodol. Rwyf yn falch bod Heddlu Gwent yn cefnogi lles ei weithlu trwy amrediad o fesurau ymarferol.